OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 1142 (Cy. 284)

# YSTADEGAU SWYDDOGOL, CYMRU

## Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017

*Gwnaed - - - - 22 Tachwedd 2017*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 6(1)(b) a (2) o Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007(**1**).

Yn unol ag adran 6(3) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Bwrdd Ystadegau.

Yn unol ag adran 65(7) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Tachwedd 2017.

### Dirymu

**2.** Mae Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2013(**2**) wedi ei ddirymu.

### Ystadegau swyddogol

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae'r ystadegau a gynhyrchir, neu sydd i gael eu cynhyrchu, gan y personau a restrir yn yr Atodlen yn ystadegau swyddogol at ddiben Rhan 1 o Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007.

(2) Nid yw ystadegau swyddogol yn y Gorchymyn hwn yn cynnwys ystadegau sydd â'r ystyr a roddir yn adran 6(1)(a) o'r Ddeddf honno.

(**1**) 2007 p. 18.
(**2**) O.S. 2013/649 (Cy. 73).

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cy

22 Tachwedd 2017

## YR ATODLEN

Erthygl 3

Awdurdod Cyllid Cymru

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Comisiynydd Plant Cymru

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Comisiynydd y Gymraeg

Corff Adnoddau Naturiol Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Chwaraeon Cymru

Cyllid Cymru

Cymwysterau Cymru

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Gofal Cymdeithasol Cymru

Hybu Cig Cymru

Partneriaeth Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre

Y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys

Trafnidiaeth Cymru

Uned Ddata Cymru

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu bod yr ystadegau a gynhyrchir, neu sydd i gael eu cynhyrchu, gan y personau a restrir yn yr Atodlen yn ystadegau swyddogol at ddiben Rhan 1 o Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 ("y Ddeddf"). Mae Rhan 1 yn sefydlu'r Bwrdd Ystadegau sy'n gyfrifol am hyrwyddo a diogelu arferion da o ran casglu ac asesu ystadegau swyddogol. Diffinnir "official statistics" yn adran 6(1) o'r Ddeddf ac mae'n cynnwys, yn is-adran (1)(b)(iii), ystadegau a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

Mae adran 6(2) o'r Ddeddf yn darparu y caiff gorchymyn a wneir o dan is-adran (1)(b) bennu disgrifiad o'r ystadegau a gynhyrchir neu'r person sy'n eu cynhyrchu.

Nid yw ystadegau swyddogol a gynhyrchir gan bersonau a restrir yn yr Atodlen yn cynnwys ystadegau a gynhyrchir gan y Bwrdd Ystadegau, adrannau'r llywodraeth, gweinyddiaethau datganoledig neu unrhyw berson arall sy'n gweithredu ar ran y Goron.

Ni luniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Gorchymyn hwn.